

# Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (LńN FAWR, RHUTHUN, SIR DDINBYCH) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 201-

MAE GWENIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A494 yn Lôn Fawr, Rhuthun, Sir Ddinbych, neu gerllaw iddi.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2016 ac y byddant yn parhau mewn grym hyd 06:00 o'r gloch ar 12 Mawrth 2016 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:-

- Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y wasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag cael eu gyrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn.  
Disgrifir y llwybr arall ar gyfer y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 yn yr Atodlen hefyd. O ran y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2, disgwylir i unrhyw waharddiadau o'r fath bara am gyfnodau byr, fel y bo angen, ac ni fydd angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol. Codir arwyddion traffig ymlaen llaw i ddangos yr holl waharddiadau.
- Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;
- Gosod terfyn cyflymder o 10 mya pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;
- Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol.

**M D BURNELL**

Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

### ATODLEN 1

- Y darn o Gefnffordd yr A494 o'r enw Lôn Fawr sy'n ymestyn o bwynt sy'n 500 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B5105 i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth o'r enw Ffordd Corwen.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yr effeithir arno gan gau'r darn o'r gefnffordd a ddisgrifir uchod fydd troi i'r dde wrth Gyffordd Bryn Eyarth ac yna troi i'r chwith i ymuno â'r A525, Ffordd Wrecsam yn Llanfair Dyffryn Clwyd. Mynd tua'r gogledd ar yr A525, Ffordd Wrecsam a Ffordd yr Orsaf i Gylchfan y Ganolfan Grefftau yn Rhuthun ac ailymuno â Chefnffordd yr A494. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

### ATODLEN 2

- Y darn o Gefnffordd yr A494 o'r enw Ffordd Corwen sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 o'r enw Lôn Fawr i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â'r lôn ddi-ddosbarth sy'n arwain at yr annedd o'r enw Ty'n-y-wern.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## THE A494 TRUNK ROAD (LON FAWR, RUTHIN, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS & PROHIBITIONS) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary because works are being executed on or near the A494 trunk road at Lon Fawr, Ruthin in the County of Denbighshire.

The restrictions and prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 20:00 hours on 7 March 2016 and remain in force until 06:00 hours on 12 March 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:-

- Prohibit all vehicles, with exception for emergency services vehicles and works vehicles, from being driven in the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Notice.  
The alternative route for the length of trunk road described in Schedule 1 is also described in the Schedule. For the length of the trunk road described in Schedule 2, any such prohibition is expected to be for short periods, as required and no diversionary routes will be necessary. All prohibitions will be indicated by advance traffic signs.
- Impose a 40 mph speed limit in the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice;
- Impose a 10 mph speed limit during convoy working in the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice;
- Prohibit all vehicles from overtaking during convoy working in the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required.

**M D BURNELL**

Transport, Welsh Government

### SCHEDULE 1

- The length of the A494 Trunk Road known as Lon Fawr that extends from a point 500 metres south of its junction with the B5105 in a southerly direction to its junction with the unclassified road known as Corwen Road.

The alternative route for northbound traffic affected by closure of the above length of trunk road will be to turn right at Bryn Eyarth Junction and left onto the A525, Wrexham Road at Llanfair Dyffryn Clwyd. Proceed northbound on the A525, Wrexham Road and Station Road to the Craft Centre Roundabout at Ruthin and re-join the A494 Trunk Road. Vice-versa for southbound traffic.

### SCHEDULE 2

- The length of the A494 Trunk Road known as Corwen Road that extends from its junction with the A494 Trunk Road known as Lon Fawr in a southerly direction to its junction with the unclassified lane leading to the dwelling known as Ty'n-y-wern



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)